## Cadw mewn cysylltiad

downtoearthproject.org.uk
01792 232 439
D2EProject
/downtoearthswansea

## Dod o hyd i ni

Mae mapiau y tu mewn i'r daflen sy'n dangos sut y gallwch ddod o hyd i'n dwy ganolfan ym Mhenrhyn Gŵyr.

## Rydym yn Fusnes Cymdeithasol

Mae Down to Earth yn fenter gymdeithasol sydd wedi ennill gwobrau ac sydd wedi ennill ei phlwyf dros gyfnod o 10 mlynedd (sefydlwyd yn 2006) am helpu pobl i wneud newid positif yn eu bywydau trwy gyfrwng gweithgarwch awyr agored ystyrlon. Mae pob ceiniog yr ydym yn ei hennill yn cael ei gwario ar ein gwaith i newid bywydau a chreu byd brafiach a gwell.

Mae Prosiect Down to Earth yn fenter gymdeithasol ddielw ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 5342802.

Swyddfa gofrestredig: 72a Heol Manselfield, Murton, Abertawe, SA3 3AP

Diolch i'n noddwyr:

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

EIN DYFODOL DISGLAIR
OUR BRIGHT FUTURE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu gan ddefnyddio inc wedi'i gynhyrchu â llysiau.

## AMDANOM NI

**Rydym yn credu'n angerddol mewn cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd. Rydym yn credu bod cynaliadwyedd yn golygu gwella ansawdd bywyd a lles i bawb, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Mae popeth rydym yn ei wneud yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn.**

Mae gennym ddau safle, hyfryd, wedi'u gwneud â llaw ar Benrhyn G yr, sydd wedi'u hamgylchynu gan goed a gyda thraethau braf gerllaw.







Gyda'n henw da am weithio â grwpiau agored i niwed ac 'anodd eu cyrraedd', rydym yn awr yn arallgyfeirio i gynnwys pob math o grwpiau i helpu ein gwaith craidd.





## SAFLE MURTON

Mae ein safle cyntaf yn dangos potensial grwpiau 'anodd eu cyrraedd' i greu canolfan ddysgu awyr agored brydferth ddi-garbon allan o ddim. Er 2006, mae'r safle 4 erw wedi cael ei drawsnewid i fod yn ofod ysbrydoledig ac ymlaciol sy'n dangos yr hyn y gall pobl ei gyflawni trwy gydweithio.



### Technolegau adnewyddadwy a chynaliadwy

Mae ein harae trydan yr haul yn allforio llawer mwy o drydan nag yr ydym yn ei ddefnyddio ac mae'n cynnwys pwynt gwefru ar gyfer cerbydau trydan gydag ynni cwbl lân. Rydym yn cynaeafu dŵr ar gyfer y toiledau ac fel dŵr yfed i'r anifeiliaid, mae ein panelau solar thermol a phympiau gwres yn cynhyrchu ein dŵr poeth a gwres o dan y lloriau ac mae gennym ein gwaith trin carthion ecolegol ein hunain ar y safle hyd yn oed.

### Ystafell arddangos adeilad-eco!

Adeilad pren trawiadol gyda system wresogi o dan y llawr, adeiladau pridd (cob), mannau eistedd a phoptai . Toeau tywyrch, derw, cerrig a gwellt – i gyd wedi'u hadeiladu gan ein grwpiau.

### Sesiynau preswyl -

Rydym yn cynnig sesiynau preswyl hollgynhwysol mewn pebyll yurt / tipi bob haf gyda'r safle ar gael i'ch grŵp chi'n unig, a hynny ychydig funudau'n unig o gerdded o Draeth Creswell.




### Ymweld â Safle Murton:

Prosiect Down to Earth,
72A Heol Manselfield,
Murton, Abertawe SA3 3AP

Ffôn: 01792 232 439
E-bost: info@downtoearthproject.org.uk

## SAFLE LITTLE BRYN GWYN

Mae ein hail safle newydd sbon yn cynnwys pensaernïaeth ysblennydd a adeiladwyd gan grwpiau agored i niwed ac 'anodd eu cyrraedd' ac sy'n cyrraedd y safonau cynaliadwyedd uchaf. Wedi'i adeiladu ar raddfa fwy, gall Little Bryn Gwyn dderbyn grwpiau mwy a chynnig mwy fyth o ysbrydoliaeth!



### Gwaith adeiladu masnachol cynaliadwy

Gan ddefnyddio polion pren crwn lleol, waliau wedi'u gwneud o fêls gwellt a phlaster clai, mae'r adeilad newydd hwn wedi cael ei adeiladu i gyrraedd safonau masnachol trwy raglenni hyfforddi achredig gyda grwpiau o oedolion agored i niwed a hefyd grwpiau cyfforaethol.

### Sgôr Neilltuol BREEAM

Mae'r adeilad hwn yn cyrraedd y safonau adeiladu cynaliadwy masnachol uchaf gan ddefnyddio dulliau adeiladu naturiol yn unig!

### Canolfan Breswyl yn dod cyn hir!

Rydym yn adeiladu canolfan breswyl eco dau lawr drawiadol gan ddechrau yn ystod yr hydref hwn (2016) gydag oedolion agored i niwed. Ar ôl ei gwblhau, byddwn yn gallu cynnig profiadau dros nos cofiadwy.




### Ymweld â Safle Little Bryn Gwyn:

Prosiect Down to Earth,
Little Bryn Gwyn, Cilibion, ger
Llanrhidian, Abertawe SA3 1ED

Ffôn: 01792 391 131
E-bost: info@downtoearthproject.org.uk

Down To Earth

GWNEUD PETHAU DA GYDA'N GILYDD



downtoearthproject.org.uk



# ANTURIAETHAU

AALA – Adventure Activities Licensing Authority

**Rydym yn cynnig anturiaethau bythgofiadwy ar benrhyn Gŵyr! Trwy dynnu'r gorau o bobl trwy gynnig y profiad gorau o'r awyr agored, bydd ein hanturiaethau'n rhoi gwefr fawr i chi ac atgofion mwy byth.**



### Yr hyn yr ydym yn ei gynnig:

- Afrorgampau
- Dringo ac abseilio
- Anturiaethau mewn cwryglau
- Dringo coed
- Byw allan ac adeiladu lloches
- Cerdded ceunentydd lefel isel (taith gerdded ar hyd yr afon)

### Cymarebau staffio

Gydag un aelod profiadol o staff ar gyfer 6-8 o gyfranogwyr, byddwch yn cael gwneud y gorau o'r gweithgaredd ond yn cael eich cadw'n ddiogel ac yn cael pob help.





# ADEILAD ECO

**Gan ddefnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy a naturiol, rydym yn cynnig cyfleoedd adeiladu masnachol cwbl gynhwysol i amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol.**

Trwy raglenni achredig ac sy'n canolbwyntio ar les, rydym yn creu'r adeiladau mwyaf cyffrous sy'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fyddwn yn cydweithio. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu hadeiladu i gydymffurfio â'r safonau cynaliadwyedd uchaf gan gyfuno technolegau hynafol a modern.

### Ailadeiladu bywydau trwy adeiladu cymunedol

Mae ein dull arloesol o adeiladu'n rhoi pwyslais ar ddod â'r gorau allan o bobl trwy'r broses o adeiladu gyda'n gilydd. Yn ogystal â thrawsnewid y bobl sy'n gysylltiedig â'r gwaith rydym yn creu adeilad sydd wedi cael ei adeiladu gan y gymuned ar gyfer y gymuned.

### Adeiladau Pwrpasol

Gallwn greu adeiladau pwysig gydag ac ar gyfer busnesau, grwpiau cymunedol a pherchnogion preifat. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.





# PROFIADAU CORFFORAETHOL

**Os ydych chi'n gobeithio ysbrydoli eich tîm trwy wneud pethau da gyda'ch gilydd neu'n chwilio am leoliad ysbrydoledig i gynnal eich diwrnod hyfforddi, gallwn gynnig profiadau wedi'u creu'n bwrpasol ar eich cyfer a fydd yn dod â'r gorau o'ch tîm.**

### Adeiladu ac Anturiaethau Cymunedol

Rydym yn gallu adeiladu timau wrth i dîm adeiladu gyda'i gilydd, yn llythrennol. Dysgu mwy am eich gilydd, dysgu sgiliau newydd a chyfrannu at greu cyfleusterau gwerth chweil i'r gymuned.

Neu, efallai yr hoffech dreulio hanner diwrnod yn cymryd rhan mewn arforgampau neu'n abseilio ar hyd arfordir prydferth Gŵyr cyn pobi eich pizza eich hun yn y ffwrn ddaear?

Gellir cynllunio'r dyddiau hyn yn unswydd ar gyfer anghenion eich busnes gyda'ch tîm yn gadael y diwrnod wedi'i ysbrydoli ac yn llawn egni.

### Hyfforddiant Proffesiynol Achredig

Gall ein staff profiadol gynnig dyddiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus neu HMS achredig naill ai yn ein canolfannau hyfforddi ein hunain neu yn eich swyddfeydd chi.





# DYSGU & LLES

**Mae gennym 10 mlynedd o brofiad o ddarparu rhaglenni awyr agored sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cael eu creu i ddod â'r gorau allan o bobl. Trwy fabwysiadu dull o ddysgu sy'n seiliedig ar berthnasoedd a datblygu lles, mae ein cyfleodd achredig yn helpu pobl ifanc ac oedolion o bob math o gefndiroedd i ffynnu.**

### Mathau o raglenni

Rydym yn cynnig rhaglenni achredig tymor hir neu fyr naill ai yn ein canolfannau ein hunain neu byddwn yn ddigon hapus i ymweld â chanolfan sy'n nes atoch chi.

### Dull yr ymchwiliwyd iddo'n glinigol

Mae ymchwil glinigol wedi'i wneud gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Phrifysgol Abertawe sy'n dangos bod ein gwaith yn cael effaith bositif ar les.

### Achrediad

Rydym yn ganolfan OCN Gymeradwy trwy Agored Cymru

nocn NATIONAL OPEN COLLEGE NETWORK — Agored Cymru